**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

George Davis
Y Gymdeithas Ffermwyr Helgig

Rachel Evans
Cynghrair Cefn Gwlad

David Pooler
Sefydliad Cenedlaethol Ceidwaid Helgig

Charles De Winton
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

Roger Draycott
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helgig a Bywyd Gwyllt

22 Hydref 2024

Annwyl rhanddeiliaid,

**Y defnydd o gawelli ar gyfer ffesantod a phetris gan y diwydiant saethu yng Nghymru**

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r cynnig a gawsom ar gyfer ymchwiliad i'r "defnydd o gewyll ar gyfer ffesantod a phetris gan y diwydiant saethu yng Nghymru" gan Animal Aid a’r Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon. Rwyf wedi anfon eich llythyr at yr Aelodau er gwybodaeth.

Fel y soniais yn fy ymateb i'r awgrym, mae gan y Pwyllgor raglen waith lawn wedi'i threfnu tan ddiwedd y flwyddyn. Bydd yr Aelodau yn penderfynu ar raglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn tuag at ddechrau tymor yr hydref. Fel rhan o hyn, byddwn yn ystyried yr ymchwiliad a argymhellir. Er eglurder, nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ar y rhaglen waith nac ychwaith ynghylch a fydd y pwyllgor yn bwrw ymlaen â’r ymchwiliad hwn.

Fodd bynnag, pe bai'r Aelodau'n penderfynu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, dylech fod yn dawel eich meddwl y bydd y Pwyllgor, fel gydag unrhyw ymchwiliad, yn edrych ar y mater yn ei gyfanrwydd. Byddwn yn cymryd tystiolaeth ac yn clywed gan bob ochr ar y mater, gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth eang hon i ffurfio unrhyw argymhellion. Derbyniwch fy sicrwydd hefyd, os bydd y Pwyllgor yn penderfynu cynnal ymchwiliad i'r defnydd o gewyll / unedau dodwy uwch neu'r sector helwriaeth ehangach, byddwn yn gwahodd tystiolaeth gan eich sefydliadau.

Diolch am eich diddordeb yng ngwaith y Pwyllgor.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg